# Proffil Swydd/Job Profile

## Teitl y Swydd – Cyfarwyddwr Addysg, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

## Post Title - Director of Education, Children & Family Services

| | |
|---|---|
| Adran | Addysg, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Department | Education, Children & Family Services |
| Is-adran/Adain | Ddim yn berthnasol / N/A |
| Division/Section | Ddim yn berthnasol / N/A |
| Gradd/Grade | Cyfarwyddwr \| Director |
| Rhif y Swydd/Post Number | 001891 |
| Paratowyd gan/Prepared By | Paul Thomas / Gareth Morgans |
| Dyddiad Paratoi/Date Prepared | Mawrth / March 2024 |

Disgwylir i bob gweithiwr gynnal gwerthoedd craidd yr Awdurdod, sydd wedi'u hadlewyrchu yn ein Fframwaith Ymddygiad a Gwerthoedd, a chynnal egwyddorion Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Awdurdod neu, os ydynt yn gweithio mewn ysgol, Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr ysgol, fel sy'n briodol i lefel atebolrwydd a chyfrifoldeb y swydd yn y sefydliad.

| Prif Ddiben y Swydd |
|---|
| 1. Cynorthwyo'r Prif Weithredwr â'r gwaith cyffredinol o arwain a rheoli'r Cyngor yn strategol er mwyn sicrhau y cyflawnir prif amcanion a strategaethau'r Cyngor, gan hyrwyddo diwylliant 'un tîm' sy'n cyd-fynd â'r gwerthoedd a'r blaenoriaethau corfforaethol.<br>2. Rhoi arweiniad a chyfeiriad rheoli effeithiol ac amlwg er mwyn sicrhau bod yr holl feysydd gwasanaeth yn yr adran yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus o safbwynt gweithredol.<br>3. Cyflawni rôl y Prif Swyddog Addysg statudol gan sicrhau bod cyfrifoldebau'r Cyngor dros berfformiad yr awdurdod addysg lleol ac ysgolion yn cael eu cyflawni i'r safonau uchaf posibl.<br>4. Sicrhau bod trefniadau clir ac effeithiol ar waith i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed.<br>5. Ysgwyddo'r cyfrifoldeb cyffredinol am arwain a phennu, monitro a rheoli cyllidebau ac adnoddau'r gwahanol wasanaethau sy'n rhan o'r gyfarwyddiaeth. |
| **Y Prif Ddyletswyddau** |
| 1. Rhoi arweiniad a chyfeiriad strategol clir ac amlwg sy'n ysgogi gwaith tîm, a bod hynny yn ei dro'n arwain at lefelau uchel o ymrwymiad a darparu gwasanaethau ymysg rheolwyr a gweithwyr er mwyn cyflawni safonau addysgol uchel.<br>2. Bod yn ben-ymgynghorydd i'r Prif Weithredwr, y Cabinet a'r Cyngor ynghylch y prif faterion a strategaethau sy'n berthnasol i amrywiol bortffolios gwasanaeth y Cyfarwyddwr, gan sicrhau bod cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol iddynt er mwyn gofalu y ceir y canlyniadau pendant gorau posibl i ddefnyddwyr y gwasanaethau.<br>3. Rhoi arweiniad clir ac amlwg sy'n ysgogi ymrwymiad mawr ymysg rheolwyr a gweithwyr yn yr adran, gan sicrhau bod holl weithgareddau'r adran yn integreiddio'n effeithiol, gyda golwg ar gyflawni ei hamcanion i wella deilliannau ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc.<br>4. Cydweithio'n agos ac yn effeithiol â'r Cyfarwyddwr Cymunedau (yn ei rôl fel Cyfarwyddwr statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol) i sicrhau y gwneir darpariaeth ddigonol er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant plant a phobl ifanc.<br>5. Cyflawni rôl y Prif Swyddog Addysg, a gweithredu fel yr hyrwyddwr strategol ar gyfer plant a phobl ifanc.<br>6. Cymryd cyfrifoldeb strategol dros sicrhau bod yr adran yn nodi ac yn sicrhau ffrydiau cyllid allanol i gefnogi'r gwaith o gyflawni cyfleoedd datblygu strategol gan sicrhau bod adnoddau ariannol y cyngor yn cael eu defnyddio i ddenu'r cyllid allanol mwyaf posibl.<br>7. Pennu'r modelau gorau ar gyfer darparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n sicrhau perfformiad a chanlyniadau o ansawdd uchel.<br>8. Dylanwadu ar ddatblygu a gweithredu'r agenda drawsnewid – sy'n berthnasol i'r Awdurdod cyfan - a chyfrannu at hynny, er mwyn i'r arloesi o ran datblygu a darparu gwasanaethau gynyddu bodlonrwydd defnyddwyr y gwasanaethau, a lleihau costau.<br>9. Sefydlu a datblygu'n barhaus weledigaeth strategol ar gyfer gwella gwasanaethau i blant a phobl ifanc, a grwpiau cleientiaid eraill, a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu i'r safon uchaf posibl yn unol â'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd, a sicrhau yr ymgysylltir ac yr ymgynghorir yn llawn â'n cwsmeriaid o ran darparu gwasanaethau.<br>10. Bod yn gyfrifol am sicrhau bod craffu parhaus ar berfformiad a chanlyniadau a gytunwyd a monitro parhaus ohonynt er mwyn cyflawni'r deilliannau gorau sy'n bosibl i blant a phobl ifanc, |

yn benodol mewn perthynas â chyflawni'r ddau brif amcan o ddiogelu a gwella deilliannau addysgol i bawb.

11. Llunio cynllun busnes 3 blynedd cynhwysfawr ar gyfer pob maes gwasanaeth a fydd yn ategu ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol, amcanion clir, monitro perfformiad a chynllunio gweithlu effeithiol.
12. Sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol a thryloyw ar waith ar draws y gwasanaethau yn y portffolio, gan gymhwyso egwyddorion llywodraethu da at weithio mewn partneriaeth.
13. Sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i sicrhau llesiant cyffredinol ac iechyd a diogelwch yr holl weithwyr a phobl sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer y Cyngor.
14. Sicrhau bod gan bob maes gwasanaeth yn y portffolio gynlluniau parhad busnes gwydn a threfniadau ymateb brys ac adfer cadarn.
15. Gweithio bob amser yn unol â pholisïau ac arferion sefydledig y Cyngor ac o fewn y fframwaith a sefydlwyd gan gyfansoddiad y Cyngor, gan gynnwys croesawu ymrwymiadau polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth y Cyngor, sicrhau triniaeth deg mewn cyflogaeth, darparu gwasanaethau a chyfathrebu.
16. Arwain datblygiad y gwasanaeth a chynllunio gweithlu'r Adran Addysg, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.
17. Ysgwyddo'r cyfrifoldeb arweiniol dros brosiectau corfforaethol penodol neu unrhyw ddyletswyddau eraill a bennir gan y gyfraith, neu y byddai'n rhesymol i'r Prif Weithredwr ofyn amdanynt.

**Yn gyfrifol am staff/offer**

Mae'r Adran Addysg, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn adran fawr ac iddi nifer o agweddau, sy'n gyfrifol am ddarparu ystod eang o wasanaethau cymorth a datblygu i blant, pobl ifanc, a dinasyddion ym mhob cwr o'r sir.

Ym mis Ebrill 2024, roedd gan yr adran gyfanswm o tua 5,500 aelod o staff, ac mae rhyw # o'r rhain yn weithwyr cymdeithasol a 1,800 yn athrawon. Mae'n gyfrifol am 12 Ysgol Uwchradd, 94 Ysgol Gynradd, 1 Ysgol Feithrin, 1 Ysgol Arbennig, 3 Canolfan Ieuenctid, 3 Canolfan Sgiliau Sylfaenol, un Ganolfan Hyfforddiant, Cynadledda a Pherfformio, 3 Chartref i Blant a 3 Uned Cyfeirio Disgyblion.

Mae gan yr adran gyllideb refeniw flynyddol gros o fwy na £270m, y mae tua £144m ohoni yn cael ei ddirprwyo i ysgolion, a rhaglen gyfalaf flynyddol o £64 miliwn yn ystod y 5 mlynedd nesaf.

**Yn atebol i**

Y Prif Weithredwr

**Arall**

Gallai'r swydd hon newid yn y dyfodol yn sgil mwy o gydweithio ac ailgynllunio gwasanaethau mewnol/sefydliadol. Bydd y proffil swydd yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd a'i ddiweddaru i sicrhau ei fod yn ymwneud â'r dyletswyddau fel y'u cyflawnir bryd hynny neu i ymgorffori pa newidiadau bynnag a gynigir gan yr Awdurdod. Ymgynghorir â deiliad y swydd ynghylch unrhyw newidiadau o'r fath. Nod yr Awdurdod fydd dod i gytundeb i wneud newidiadau rhesymol. Os na fydd modd dod i gytundeb, mae'r awdurdod yn cadw'r hawl i roi newidiadau ar waith yn dilyn ymgynghori.

**Diogelu**

Mae diogelu yn fater i bawb. Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb am amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl, a gweithio mewn ffordd sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi eu budd pennaf, a rhoi gwybod am unrhyw bryderon.

| Meini Prawf Hanfodol |
|---|
| **Cymwysterau, Hyfforddiant Galwedigaethol ac Aelodaethau Proffesiynol** |
| Cymhwyster lefel gradd anrhydedd neu brofiad cyfatebol.<br>Cymhwyster rheoli perthnasol neu ddatblygiad proffesiynol parhaus pendant.<br>Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus sy'n berthnasol i'r rôl hon. |
| **Sgiliau a Galluoedd sy'n ymwneud â'r Swydd** |

**Un Tîm**

**Addasu i newid**

Gallwch addasu i newidiadau yn y gwaith neu'r amgylchedd, gan barhau'n effeithiol ac yn bositif. Rydych yn addasu eich arddull bersonol i gyd-fynd â gwahanol bobl neu sefyllfaoedd, er mwyn cyflawni nodau neu bwrpas a rennir ar y cyd. Rydych yn defnyddio newid ac ansicrwydd mewn ffordd gadarnhaol i hyrwyddo ac annog cydweithio a rhannu ar draws adrannau, gwasanaethau a chyda phartneriaid wrth weithio'n rhanbarthol.

**Cwsmeriaid yn Gyntaf**

**Ffocws ar gwsmeriaid**

Rydych yn mynd ati i chwilio am farn amrywiol unigolion sy'n derbyn ein gwasanaethau, i wella'r gwasanaethau rydym yn eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Rydych yn cynllunio ymlaen llaw ar gyfer anghenion gwasanaeth, gan ystyried ffactorau ehangach ac effeithiau hirdymor penderfyniadau. Rydych yn datblygu, yn cyflawni ac yn gwerthuso cynlluniau strategol, gan gydbwyso pwysau tymor byr â nodau tymor hir, yn unol â gweledigaeth y Cyngor, sy'n mynd i'r afael ag anghenion gwasanaeth amrywiol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.

**Datblygu perthynas ag eraill a gwasanaethau dwyieithog**

Rydych yn sefydlu cyd-barch ac ymddiriedaeth yn gyflym yn seiliedig ar onestrwydd a dibynadwyedd, gan feithrin perthynas hirdymor ag eraill. Rydych yn ymchwilio i ddulliau effeithiol o ddatblygu gwasanaethau dwyieithog sy'n cael effaith gadarnhaol ar unigolion. Rydych yn sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog wrth wneud penderfyniadau, gan ddarparu gwasanaeth dwyieithog i unigolion a thimau.

**Uniondeb**

**Gwneud penderfyniadau**

Rydych yn deall pan fydd rhywbeth yn disgyn y tu allan i'ch rôl a phryd i gyfeirio at eraill. Rydych yn cymryd cyfrifoldeb dros bobl a phenderfyniadau a allai olygu gwneud dewisiadau anodd neu gymryd risgiau ystyriol gan roi cyfeiriad clir. Rydych yn hyrwyddo tryloywder ynghylch penderfyniadau ac yn creu diwylliant lle mae eraill yn teimlo eu bod yn gallu herio'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud.

**Rhagori**

**Arloesi**

Rydych yn gofyn cwestiynau ac yn chwilio am ffyrdd gwell a/neu newydd o wneud pethau, gan awgrymu gwelliannau. Rydych yn dylunio prosesau a systemau sy'n cefnogi newid cadarnhaol, yn sicrhau dysgu, ac yn gwella gwasanaethau. Rydych yn ymgorffori diwylliant o arloesi a meddwl creadigol i ysgogi gwelliannau i'r gwasanaeth, gan rymuso timau i annog datblygiad parhaus.

**Dadansoddi**

Rydych yn ymdrin â phroblemau mewn modd cadarnhaol ac yn dod o hyd i ffyrdd o nodi atebion addas. Rydych yn gwneud gwaith ymchwil ac yn dadansoddi gwybodaeth a data rhifiadol ac ysgrifenedig o ystod o ffynonellau er mwyn llywio penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydych yn chwilio am ragor o wybodaeth neu ddealltwriaeth o broblem, gan gydnabod sut y gallai un mater fod yn rhan o system fwy a dod i gasgliadau rhesymegol.

**<u>Cymryd Cyfrifoldeb</u>**

**Rheoli perfformiad**

Rydych yn ystyried eich perfformiad eich hun yn onest, gan nodi beth y gellid ei ddatblygu neu ei wneud yn wahanol yn y dyfodol. Rydych yn ystyried anghenion unigolion, gan fynd i'r afael â pherfformiad yn gyflym ac yn deg, gan drin camgymeriadau fel cyfleoedd dysgu. Rydych yn creu amgylchedd lle mae pobl yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i wneud penderfyniadau, gan annog syniadau, gwelliannau a chymryd risgiau cymedrol.

**<u>Gwrando</u>**

**Deall eraill**

Rydych yn gwrando er mwyn deall safbwyntiau ac anghenion eraill, gan ymateb yn sensitif a gwirio dealltwriaeth lle bo angen. Rydych yn hwyluso trafodaethau adeiladol ac yn gweithio gydag amrywiaeth o bobl i ddod i gytundeb. Rydych yn defnyddio hunanymwybyddiaeth a lefelau uchel o ddealltwriaeth o anghenion eraill i ddylanwadu ar gytundebau strategol a chydweithredol lefel uchel a'u trafod.

**Gwybodaeth**

Gwybodaeth drylwyr am y fframwaith polisi cenedlaethol y mae'r Cyngor Sir yn gweithredu ynddo.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cyd-destun gwleidyddol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Dealltwriaeth glir o faterion deddfwriaethol, polisi ac arferion gorau allweddol yng Nghymru a'r DU mewn perthynas ag Addysg, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

Dealltwriaeth glir o egwyddorion llywodraethu da ac ymrwymiad iddynt.

**Profiad**

Profiad helaeth a llwyddiannus o reoli a gwella gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc.

Hanes o lwyddo i ddatblygu a darparu rhaglenni a pholisïau strategol corfforaethol ac integredig.

Profiad sylweddol o arwain a rheoli'r gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau addysgol/plant/teuluoedd.

**Rhinweddau Personol**

Rheoli materion sensitif a gwleidyddol yn hyderus gan weithio'n ddiplomataidd i gyflawni canlyniadau positif ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.

Y gallu i weithio'n effeithiol â'r aelodau etholedig gan fod yn ddiduedd ac yn sensitif yn wleidyddol.

| Meini Prawf Dymunol |
|---|
| Cymhwyster proffesiynol perthnasol neu gymhwyster addysgu cyfwerth. |

| Sgiliau Iaith a Chyfathrebu |
|---|

**Cliciwch ar y ddolen** Beth yw lefel eich gallu?

| | | |
|---|---|---|
| Cymraeg | **Sgiliau Siarad Lefel 5** language-skills-assessment-and-guidance.docx | **Sgiliau Ysgrifennu Lefel 5** |
| Saesneg | **Sgiliau Siarad Lefel 5** | **Sgiliau Ysgrifennu Lefel 5** |
| Arall (nodwch) | | |

| GWIRIADAU'R GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD (DBS) |
|---|
| Gall gwiriadau DBS fod yn ofynnol ar gyfer rhai swyddi sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed. Yn ofynnol ar gyfer y swydd hon:<br>Adran A – math o ddatgeliad **Datgeliad manwl gan wirio'r rhestr wahardd**<br>Adran B – math o weithlu **Y Gweithlu Plant ac Oedolion**<br>Adran C – A yw'r swydd yn gofyn am adnewyddu DBS bob 3 blynedd neu gofrestru gyda gwasanaeth diweddaru ar-lein y DBS? **Nac ydy** |

| Y RHESWM |
|---|
| Mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd weithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed heb oruchwyliaeth. |

| UNRHYW WYBODAETH ARALL |
|---|
| |

| Main Purpose of Job |
|---|
| 6. To support the Chief Executive in the overall strategic management and leadership of the Council to ensure the achievement of the Council's key objectives and strategies, promoting a 'one team' culture that aligns with corporate values and priorities.<br>7. To provide effective and visible leadership and management direction to achieve successful operational delivery of all the service areas within the department. |

8. To fulfil the role of statutory Chief Education Officer ensuring that the Council's responsibilities for local education authority and schools' performance are discharged to the highest possible standards.
9. To ensure that there are clear and effective arrangements in place to protect children and young people from harm.
10. To have overall responsibility for leading, setting, monitoring and controlling the budgets and resources for the component service elements of the directorate.

**Key responsibilities**

18. To provide clear and visible leadership and strategic direction that inspires teamworking that leads to high levels of commitment and service delivery amongst managers and employees to deliver high educational standards.
19. To be the principal advisor to the Chief Executive, Cabinet and Council on key issues and strategies relevant to the various service portfolios of the Director, securing both corporate and political support that will ensure the best possible tangible outcomes for service users.
20. To provide clear and visible leadership that leads to high levels of commitment amongst managers and employees within the department, ensuring that all the department's activities integrate effectively in pursuit of its objectives to improve outcomes for all children and young people.
21. To collaborate closely and effectively with the Director of Communities (in his role as statutory Director of Social Services) to ensure that sufficient provision is made to ensure the safeguarding and well-being of children and young people.
22. To fulfil the statutory role of Chief Education Officer, and act as the strategic champion for children and young people.
23. To have the strategic responsibility for ensuring that the department identifies and secures external funding streams to support the delivery of strategic development opportunities ensuring that the council financial resources are used to lever in maximum external funding.
24. To determine the best models of high-quality service delivery that delivers high quality performance and outcomes.
25. To influence and contribute to the development and implementation of the Authority wide Transformation agenda, so that the development and service delivery innovations improve service user satisfaction and reduce cost.
26. To establish and continuously develop a strategic vision for the improvement of services to children and young people, and other client groups, and to ensure that services are provided to the highest possible standard within the current resources available, and that our customers are fully engaged and consulted in service provision.
27. To be responsible for ensuring that performance and agreed outcomes are constantly scrutinised and monitored so as to provide the best possible outcomes for children and young people, particularly in relation to the twin principal objectives of safeguarding and improving educational outcomes for all.
28. To develop a comprehensive 3 year business plan for each service area that will underpin and support the achievement of the Corporate Strategy, clear objectives, performance monitoring and effective workforce planning.

29. To ensure proper and transparent governance arrangements are in place across the services within the portfolio, applying the principles of good governance to partnership working.
30. To ensure that effective arrangements are in place to secure the overall well-being and the health and safety of all employees and people delivering services for the Council.
31. To ensure that all service areas within the portfolio have resilient business continuity plans and robust emergency response and recovery arrangements.
32. To work at all times within the established policies and practices of the Council and within the framework established by the Council's constitution, including embracing the Council's equality and diversity policy commitments, ensuring fair treatment in employment, service delivery and communications.
33. Lead the development of service and workforce planning for the Education, Children and Family Services department.
34. To take lead responsibility for specific corporate projects or any other duties imposed by law, or which the Chief Executive may reasonably require.

**Responsible for staff/equipment**

The Department for Education, Children and Family Services is a large multi-faceted department responsible for delivering a broad range of support and development services to children, young people and citizens across the County.

In April 2024, the department had a total of around 5,500 staff, of whom some # are Social Workers, 1,800 are Teachers; and is responsible for 12 Secondary Schools, 94 Primary Schools, 1 Nursery School, 1 Special School, 3 Youth Centres, 3 Basic Skill Centres, one Training, Conference and Performing Centre, 3 Children's Homes and 3 Pupil Referral Units.

The department has a gross annual revenue budget of more than £270m of which around £144m is delegated to schools, and an annual capital programme of £64 million over the next 5 years.

**Reporting to**

Chief Executive

**Other**

This post may be subject to change in the future due to increased collaborative working and internal service/organisational redesign. The job profile will be reviewed periodically and updated to ensure that it relates to the duties as then being performed or to incorporate whatever changes are proposed by the Authority. Any such changes will be subject to consultation with the postholder. It will be the Authority's aim to reach agreement to make reasonable changes. If agreement is not possible the Authority reserves the right to implement changes following consultation.

**Safeguarding**

Safeguarding is everyone's business. All of us have a responsibility for protecting children and adults at risk, working in a way that promotes and supports their best interests and for reporting any concerns.

| **Essential Criteria** |
|---|
| **Qualifications, Vocational Training and Professional Memberships** |
| Honours degree level qualification or equivalent experience.<br>A relevant management qualification or demonstrable continuing professional development.<br>Evidence of continuing professional development relevant to this role. |
| **Job Related Skills and Competencies** |
| **<u>One Team</u>**<br>**Adapting to change**<br>You can adapt to changes in work or environment, remaining effective and positive. You adapt your personal style to suit different people or situations, to collectively deliver shared goals or purpose. You make positive use of change and uncertainty to promote and encourage collaboration and sharing across departments, services and with partners in regional working.<br>**<u>Customers First</u>**<br>**Customer focus**<br>You actively seek the diverse views of individuals who use our services, to improve our service delivery through Welsh and English. You plan ahead for service needs, considering the wider factors and long-term effects of decisions. You develop, deliver and evaluate strategic plans, balancing short-term pressure with long-term goals, aligned to the Council's vision, which address diverse service needs including Welsh language and culture.<br>**Developing relationships & bilingual services**<br>You quickly establish mutual respect and trust based on honesty and reliability, building lasting relationships with others. You research effective methods to develop bilingual services that have a positive impact on individuals. You ensure that decisions are made with the Welsh language at the heart, providing a bilingual service to individuals and teams.<br>**<u>Integrity</u>**<br>**Decision making**<br>You understand when something falls outside of your role and when to refer to others. You take responsibility for people and decisions which may involve tough choices or considered risks, giving clear direction. You promote transparency around decisions and create a culture where others feel able to challenge decisions being made.<br>**<u>Excellence</u>**<br>**Innovation**<br>You ask questions and look for better and/or new ways of doing things, suggesting improvements. You design processes and systems that support positive change, secure learning, and improve services. You embed a culture of innovation and creative thinking to drive service improvements, empowering teams to encourage continual development.<br>**Analysing** |

You take a positive approach to deal with problems and find ways to identify suitable solutions. You research and analyse numerical and written information and data from a range of sources to inform evidence-based decisions. You probe for further information or understanding of a problem, recognising how one issue may be part of a larger system and making rational conclusions.

**Take Responsibility**

**Manages performance**

You reflect honestly on your own performance, identifying what could be developed or done differently in the future. You consider individual needs, addressing performance promptly and fairly, treating mistakes as learning opportunities. You create an environment where people feel empowered to make decisions, encouraging ideas, improvements and measured risk taking.

**Listening**

**Understanding others**

You listen to understand alternative viewpoints and needs, responding sensitively and checking understanding where necessary. You facilitate constructive discussions and work with a range of people to reach an agreement. You use self-awareness and high levels of understanding of other's needs, to influence and negotiate high-level strategic and collaborative agreements.

**Knowledge**

A thorough knowledge of the national policy framework within which the County Council operates.

Knowledge and understanding of the political context at a local, regional, and national level.

A clear understanding of key Welsh and UK legislative, policy and best practice issues in relation to Education, Children and Family Services.

A clear understanding of, and commitment to, the principles of good governance.

**Experience**

Extensive and successful experience in the management and improvement of services for children and young people.

Demonstrable experience in the successful development and delivery of corporate and integrated strategic policies and programmes.

Significant experience in leading and managing the development and delivery of educational / children / family services.

**Personal qualities**

To confidently manage sensitive and political issues with effective use of diplomacy to achieve positive outcomes for service users.

The ability to work effectively with elected members, demonstrating political sensitivity and impartiality.

| **Desirable Criteria** |
| --- |
| Relevant professional qualification or equivalent Teaching Qualification. |

| **Language and Communication Skills** |
| --- |

**Click on the link** [What level are you?]

| | | |
| --- | --- | --- |
| Welsh | **Spoken Level 5**<br>language-skills-assessment-and-guidance.docx | **Written level 5** |
| English | **Spoken Level 5** | **Written level 5** |
| Other (please State) | | |

| **DISCLOSURE AND BARRING SERVICES (DBS) CHECKS** |
| --- |
| DBS Checks may be required for certain posts which work with children and vulnerable adults. This post requires:<br>Section A – type of disclosure Enhanced Disclosure with Barred list check<br>Section B – workforce type **Child and Adult Workforce**<br>Section C – Does the post require 3 yearly DBS renewals or registration with the DBS online update service? No |

| **JUSTIFICATION** |
| --- |
| The role may require the postholder to have unsupervised access to children and vulnerable adults. |

| **ANY OTHER INFORMATION** |
| --- |
| |